**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, *'Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?***

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r deg argymhelliad a geir ynddo.

**<u>Argymhelliad 1</u>**

Barn y Pwyllgor yw y byddai rhoi mwy o gyfrifoldebau darlledu i'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn gwella darpariaeth y cyfryngau yng Nghymru yn sylweddol. Dylai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac Ofcom nodi sut y gellir gwella'r cynnwys a ddarperir ar y cyfryngau i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

**Ymateb:** Derbyn

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Ofcom '*Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*' ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn nodi mai prin yw'r sylw a roddir i fywyd cyhoeddus a chymdeithas Cymru mewn papurau newydd yn y DU ac ar wasanaethau darlledu yn y DU. Yn ogystal, mae'n nodi nad yw'r portread o Gymru yn y cyfryngau yn y DU yn adlewyrchu amrywiaeth a chyfoeth diwylliannol y genedl yn ddigonol. Yr ydym wedi galw dro ar ôl tro am fwy o atebolrwydd i Gymru ar faterion sy'n ymwneud â'r cyfryngau er mwyn sicrhau bod darpariaeth y cyfryngau yn parhau i fod yn addas i'r diben mewn cyd-destun datganoledig ac o ystyried y sefyllfa unigryw a gwahanol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gydweithio â Llywodraeth y DU ac Ofcom i nodi cyfleoedd i sicrhau gwelliannau o ran y cynnwys a ddarperir ar y cyfryngau i gynulleidfaoedd yng Nghymru. O ystyried y tirlun darlledu a chyfryngau sy'n newid yn gyflym ac esblygiad parhaus datblygiadau digidol arloesol, mae hon yn adeg dyngedfennol i'r drafodaeth ddarlledu. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaethau gan fod newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio yn cael eu hystyried i sicrhau bod ein cyfryngau'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cael cyfryngau sy'n annibynnol ar y llywodraeth ac, yn y pen draw, mater i sefydliadau'r cyfryngau a darlledwyr yw'r cynnwys a'r gwasanaethau a ddarperir ar y cyfryngau yng Nghymru. O'r herwydd, mae darlledwyr a sefydliadau cyfryngau yn bartneriaid allweddol yn y trafodaethau hyn ac yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu cynnwys ar y cyfryngau sy'n addas i'r diben. Bydd Cymru Greadigol yn adeiladu ar y berthynas gadarnhaol y mae wedi'i datblygu gyda rhanddeiliaid gan gynnwys sefydliadau'r cyfryngau a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi gwelliannau yn narpariaeth y cyfryngau.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 2**

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa ganolog barhaus i gefnogi newyddiaduraeth newyddion sy’n atebol ac sy’n cael ei darparu o hyd braich er mwyn sicrhau didueddrwydd.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi newyddiaduraeth newyddion drwy’r Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn edrych ar yr opsiynau i gryfhau ac arallgyfeirio’r ddarpariaeth newyddion yng Nghymru mewn ymateb i bryderon ynghylch gwendidau o ran seilwaith y cyfryngau cynhenid a lluosogrwydd newyddion ar faterion er budd y cyhoedd. Cynhaliwyd nifer o drafodaethau gyda rhanddeiliaid dros y misoedd diwethaf.

Mae’r trafodaethau hyn wedi adlewyrchu barn y Pwyllgor bod y cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol, gan gynnwys canfyddiadau’r adroddiad o anfodlonrwydd â’r cynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd Cymru ar y cyfryngau, yn enwedig cynnwys newyddion a materion cyfoes.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith hyn ar y gwaith o graffu ar benderfyniadau’r llywodraeth ac atebolrwydd democrataidd, ac mae’n edrych ar yr opsiynau i ariannu cynnydd o ran y ddarpariaeth newyddion, ar sail hyd braich. Neilltuwyd ymrwymiad ariannol o £100,000 yng nghyllideb a chynllun busnes Cymru Greadigol ar gyfer 2021/22 i gefnogi hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gydweithio â rhanddeiliaid, gan gynnwys y Senedd, wrth i gynnig gael ei ddatblygu i edrych ar y potensial i sicrhau cymorth ariannol ychwanegol a sicrhau bod y dull y cytunwyd arno yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru. Bydd y dull yn cael ei adolygu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Goblygiadau ariannol:** Ymrwymiad cyllid refeniw o £100k yng nghyllideb Cymru Greadigol yn 2021/22 i gyfrannu at hyn.

**Argymhelliad 3**

Yn unol â’r trefniadau presennol, hoffem weld comisiwn ariannu annibynnol yn cael ei sefydlu â chynrychiolaeth benodol o Gymru. Dylai’r penderfyniadau a wneir gan gorff o’r fath fod yn destun cydsyniad gan gynrychiolwyr o holl wledydd y DU. Dylai’r aelodau o Gymru ar y comisiwn gael eu penodi gan Lywodraeth Cymru, ac yna dylid cael gwrandawiad cadarnhau gerbron un o bwyllgorau priodol y Senedd.

**Ymateb:** Nid yw’n argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai’r gwledydd chwarae rôl wrth wneud penderfyniadau ariannu pwysig, yng nghyd-destun darlledu sy’n annibynnol ar y llywodraeth. Nodwn ddiffyg tryloywder ac ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU o ran penderfyniadau ariannu hanesyddol, er enghraifft penderfyniadau ar ffi’r drwydded deledu yn 2010 a 2015. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi penderfyniadau pwysig o ran ariannu yn ystod y misoedd nesaf, gan gynnwys y broses o gytuno ar lefel ffi’r drwydded deledu o 2022, a’i heffaith benodol ar gyllid ar gyfer S4C a fydd yn derbyn

ei holl arian cyhoeddus o ffi'r drwydded o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Yn ogystal, y drafodaeth ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a all arwain at newidiadau i fodelau ariannu.  Byddem yn croesawu mecanwaith ffurfiol sy'n sicrhau bod y penderfyniadau hyn a phenderfyniadau eraill yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad llawn ac effeithiol â rhanddeiliaid allweddol ar draws y pedair gwlad, gan gydnabod effaith y penderfyniadau hynny ar y rhai sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r DU.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 4</u>**

Dylai Llywodraeth y DU ddatganoli pwerau dros S4C a materion eraill sy'n ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg i Gymru.

**Ymateb:** Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnig datganoli cyfrifoldeb dros bolisi nac ariannu ar gyfer S4C a materion eraill sy'n ymwneud â darlledu Cymraeg i Gymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn na ddylid datganoli darlledu nac elfennau o ddarlledu. Gallai fod risgiau ariannol sylweddol i ddatganoli'r pwerau hyn i Gymru, heb unrhyw sicrwydd y byddai cyllidebau'n cael eu trosglwyddo hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir, fodd bynnag, er y dylai rheoleiddio darlledu yn gyffredinol aros gyda Llywodraeth y DU, nid yw hyn yn golygu na ddylid cael mwy o atebolrwydd i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl hynod bwysig y mae S4C a darlledu Cymraeg yn ei chwarae wrth gefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg fel y nodir yn Cymraeg 2050. Mae hyn yn cynnwys rôl yn y gwaith o ddarparu gwybodaeth a newyddion a chynnwys creadigol er budd y cyhoedd yn yr iaith Gymraeg ac adnoddau addysgol i gefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg, sydd wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod argyfwng presennol COVID-19. Mae'n hanfodol bod gan y Gymraeg statws digonol mewn trafodaethau a phenderfyniadau ar ddarlledu a bod gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl yng Nghymru, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i strwythurau darlledu esblygu i sicrhau bod buddiannau Cymru o ran y Gymraeg gael eu trafod, eu deall a'u hadlewyrchu mewn unrhyw newidiadau i'r fframweithiau darlledu.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 5</u>**

Dylai fod gofyniad bod y drwydded Sianel 3 yng Nghymru yn cynhyrchu cyfran fwy o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru gael rôl ffurfiol yn y broses hon.

**Ymateb:** Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd trwydded Sianel 3 o ran cefnogi lluosogrwydd cynnwys a chynaliadwyedd a thwf y diwydiannau creadigol yng

Nghymru. Mae ITV Cymru yn parhau i chwarae rhan hanfodol fel dewis amgen i'r BBC ar gyfer rhaglenni newyddion a rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion, ac mae'n darparu gwasanaeth newyddion democrataidd hanfodol i bobl Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder ynglŷn â'r gostyngiad yng ngwariant ITV Cymru ar gynnwys cyntaf Cymru yn ystod cyfnod y weinyddiaeth hon. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag Ofcom fel y rheoleiddiwr annibynnol i helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu amrywiaeth a chyfoeth diwylliannol Cymru a'i phobl. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n rheolaidd ag Ofcom, aelod o Fwrdd Ofcom dros Gymru, a thrwy ymgynghoriadau Ofcom i gefnogi cyfran uwch o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru.

Mae Cymru Greadigol wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol gydag ITV Cymru ac ITV Studios ers ei lansio. Cefnogodd Cymru Greadigol The Pembrokeshire Murders a ddarlledwyd ar ITV ym mis Ionawr 2021, a darparodd lefel uchel o gefnogaeth logistaidd i I'm A Celebrity Get Me Out Of Here yn 2020. Byddwn yn datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng ITV a Cymru Greadigol yn 2021/22 a fydd yn edrych ar y cyfleoedd i adeiladu ar y berthynas gadarnhaol hon ac yn cefnogi amrywiaeth ehangach o gynnwys i Gymru ar draws genres.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 6**

Dylai Llywodraeth y DU ddeddfu i alluogi corff rheoleiddio priodol i'w gwneud yn ofynnol bod deiliaid trwyddedau radio masnachol yng Nghymru yn darlledu cynnwys Cymraeg, ynghyd â chyflwyno categori rheoliadol ar gyfer "newyddion Cymru gyfan". Dylai Llywodraeth Cymru chwarae rôl ffurfiol wrth bennu'r gofynion hyn.

**Ymateb:** Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

Mae gorsafoedd radio masnachol yn chwarae rhan bwysig yn y gwasanaethau a ddarperir ar y cyfryngau yng Nghymru, yn enwedig o ran darpariaeth newyddion Cymru, o ystyried gwendid y cyfryngau print yng Nghymru a'r diffyg sylw i faterion Cymreig mewn papurau newydd yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio i Ofcom a Llywodraeth y DU na fyddem am weld y rheolau lleolrwydd presennol ar radio masnachol yn cael eu llacio nac yn cael eu dileu ymhellach. Mae wedi galw hefyd am ystyriaeth briodol i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg pan fydd trwyddedau radio yn cael eu dyfarnu neu eu hadolygu ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i godi'r mater o ddarpariaeth ddigonol o ran cynnwys Cymreig a Chymraeg ar y radio yn ein trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a chydag Ofcom.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 7**

Dylai Llywodraeth y DU reoleiddio gwasanaethau ffrydio byd-eang i gryfhau'r ecosystem cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Gallai rheoleiddio o'r fath gynnwys ardollau i ariannu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, neu ofynion i ddarlledu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Dylai Llywodraeth y DU ystyried ymestyn ardollau i gynnwys cwmnïau ar-lein mawr eraill, fel peiriannau chwilio a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

**Ymateb:** Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i '*Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*' yn nodi effaith llwyfannau a gwasanaethau ffrydio byd-eang ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ledled y DU. Cytunwn fod yn rhaid i unrhyw fframwaith rheoleiddio a gyflwynir yn y dyfodol i ddiwallu anghenion tirlun newidiol y cyfryngau adlewyrchu'r effaith hon a sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwneud fel bod argaeledd cyffredinol cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y gellir cynnal darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau digidol ar delerau teg. Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i gymryd camau brys mewn ymateb i unrhyw argymhellion a nodwyd gan Ofcom fel rhan o'i hadolygiad '*Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*'.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 8**

Dylai'r Chweched Senedd gynnwys pwyllgor sy'n trafod polisi'r cyfryngau fel rhan ganolog o'i gylch gwaith. Dylai'r pwyllgor hwn gynnal gwrandawiadau cadarnhau, mewn cyfarfodydd ar y cyd â phwyllgorau perthnasol San Steffan os bydd angen, ynghyd â'r aelod o fwrdd Ofcom dros Gymru, aelod bwrdd y BBC yng Nghymru a chadeirydd bwrdd S4C. Dylai ei raglen waith gynnwys craffu ar y cyrff hyn yn barhaus, yn ogystal â darlledwyr eraill, gan gynnwys deiliad y drwydded Sianel 3. Wrth i ragor o bwerau darlledu gael eu datganoli i'r Senedd, gallai'r pwyllgor hwn hefyd chwarae rhan yn y gwaith o reoleiddio ac ariannu darpariaeth y cyfryngau.

**Ymateb:** Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

Mae'r cyfryngau'n chwarae rhan hollbwysig wrth hysbysu, diddanu, addysgu a chreu dinasyddiaeth ddiwylliannol gyffredin. Mae pwysigrwydd y rôl hon wedi bod yn arbennig o amlwg yn ystod pandemig COVID-19. Mae'n gwneud cyfraniad hanfodol at dwf y diwydiannau creadigol ac economi Cymru. Mae'n cynnal datblygiad cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol ac yn cefnogi amrywiaeth a chynaliadwyedd yn y sector yn y dyfodol drwy ddatblygu sgiliau a thalent. Yn ogystal, mae cyfryngau cryf ac effeithiol yn hanfodol i ddatganoli a chynnal a thyfu'r Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r tirlun cyfryngau sy'n newid yn gyflym; newidiadau sydd wedi'u cyflymu gan bandemig byd-eang COVID-19. Mae angen gweithredu ar frys wrth i gyflymder y newid hwn gynyddu, er mwyn sicrhau cyfryngau addas i'r diben sy'n diwallu anghenion Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 9</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru gael rôl ehangach wrth bennu telerau'r drwydded Sianel 3 nesaf i Gymru.

**Ymateb:** Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 5, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd trwydded Sianel 3 o ran cefnogi lluosogrwydd cynnwys ac i gynaliadwyedd a thwf y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Bydd y cyfnod trwyddedu presennol ar gyfer gwasanaethau Sianel 3 yn dod i ben ar ddiwedd 2024. Rydym wedi pwysleisio'n rheolaidd bod trwydded newydd yn cynnig cyfle i fynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd o ran darparu cynnwys a sicrhau lefel briodol o ddarpariaeth, a ddiogelir ar gyfer y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag Ofcom fel y rheoleiddiwr annibynnol i godi materion sydd o bwys i Gymru mewn perthynas â thrwydded Sianel 3 i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 10</u>**

Dylai'r BBC ddarparu fforwm olynol sy'n gwella ar y Cynghorau Cynulleidfa, fel lle i gasglu barn cynulleidfaoedd yng Nghymru a chyfrannu at ddatblygu polisi'r BBC.

**Ymateb:** Nid yw'n argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

Chwaraeodd Cyngor Cynulleidfa Cymru ran bwysig wrth graffu ar berfformiad y BBC ac asesu ei raglenni a'i wasanaethau ar ran cynulleidfaoedd yng Nghymru. Darparodd gyngor gwerthfawr i'r BBC ar faterion yn ymwneud â'i gynulleidfaoedd a'i wasanaethau ar lefel Cymru a mecanwaith clir i gefnogi'r gwaith o ddatblygu allbwn a gweithgareddau sy'n cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru, nad yw wedi'i ailadrodd yn llawn gan Bwyllgor Bwrdd BBC Cymru.

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu unrhyw ddatblygiadau sy'n cryfhau'r trefniadau presennol ac yn rhoi llais mwy effeithiol i gynulleidfa Cymru wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau'r BBC yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**